Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/KW/1536/21

Llinos Madeley
Clerc y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Senedd
Bae Caerdydd.
CF99 1SN.

31 Mawrth 2021

Annwyl Llinos

Ysgrifennodd Lynne Neagle AS ar 23 Mawrth yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

Nododd ei llythyr fod yn rhaid i waith y Pwyllgor ddod i ben oherwydd etholiad y Senedd. Fodd bynnag, darparodd rai egwyddorion allweddol, o'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, y mae'n credu eu bod yn sylfaen ar gyfer adeiladu gwaith yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith yn y maes hwn ac am ddarparu'r wybodaeth bellach hon. Credaf fod Llywodraeth Cymru yn rhannu'r egwyddorion a amlinellir yn llythyr y Cadeirydd, a'u bod yn sail i'n dull presennol o ymdrin ag EOTAS. Er enghraifft, rwyf wedi cytuno i'm swyddogion weithio mewn partneriaeth â'r Uned Atal Trais ar brosiect cysylltu data er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng ffactorau risg addysgol a gweithgarwch troseddol. Nod y prosiect yw cysylltu data addysg a throseddu er mwyn adnabod newidynnau sy'n dangos bod plentyn neu berson ifanc mewn mwy o berygl na'i gyfoedion o gymryd rhan mewn trosedd neu o gael ei ecsbloetio gan gangiau troseddol cyfundrefnol.

Fodd bynnag, fel y noda'r Cadeirydd, mater i chweched Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg newydd fydd cytuno ar fanylion a'i dull o ymdrin ag EOTAS yn y dyfodol, yn unol â blaenoriaethau strategol y Llywodraeth honno. Serch hynny, rwy'n siŵr y bydd yr wybodaeth a ddarperir gan y Pwyllgor yn werthfawr o ran helpu i lywio polisi ac arferion yn y maes hwn yn y dyfodol.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.